Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir y Fflint

Cynllun Gweithredu
2017-2020

Mabwysiadwyd gan y Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar 7 Tachwedd 2017

ATODIAD 1

Symud ymlaen.

Bob mis Medi, caiff cynllun gweithredu blynyddol ei gytuno gan bob un o dri is-grŵp y fforwm – Safonau, Darpariaeth a Gweithlu. Bydd rhain yn fanwl a byddant yn canolbwyntio ar dargedau penodol sy'n berthnasol i amser. Bydd y targedau hyn yn codi o gynlluniau parhaus y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESP) i gyflawni'r saith canlyniad sydd wedi'u cynnwys ynddo. Bydd pob is-grŵp yn cyfarfod yn ffurfiol unwaith/dwywaith y tymor fel sy'n briodol i ddatblygu ei gynllun gweithredu, monitro a gwerthuso ei gynnydd ac adrodd yn ôl i'r Fforwm ar ddiwedd y cylch yn nhymor yr haf 2019. Bydd y Fforwm llawn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i adolygu cynnydd ym mhob un o'r is-grwpiau. Bydd gan y fforwm drosolwg strategol o'r cynlluniau gweithredu a gweithrediad y WESP. Caiff y cynlluniau blynyddol hyn eu cefnogi a'u cydlynu gan yr ALl.

Is-grŵp Darpariaeth **Dyddiad adolygu: Medi 2018**	**Gweithredu Parhaus**	**Gweithredu Newydd**	**Cynnydd (RAG)**
1. Parhau i weithredu'r rhaglen buddsoddi cyfalaf i sicrhau gallu mwy yn y sector cyfrwng Cymraeg (Canlyniad 1).	**X**		
2. Dylai'r ALl sicrhau bod cynllunio ar gyfer y dyfodol i ymateb i unrhyw gynnydd o ran niferoedd sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg (Canlyniad 1).		**X**	
3. Parhau i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda Llywodraeth Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a darparwyr gofal plant eraill i gyflwyno gwasanaethau hygyrch Cymraeg cyn-ysgol sydd o ansawdd uchel ac annog rhieni i wneud dewis cynnar i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. (Canlyniad 1).	**X**		
4. Sicrhau bod darparwyr presennol addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion sy'n perfformio'n dda gyda thystiolaeth o ganlyniadau dysgwyr, categoreiddio cenedlaethol, adroddiadau Estyn, gan ddenu rhieni i ddewis yr ysgolion hyn yn gynnar yn addysg eu plant (Canlyniad 1).	**X**		
5. Bydd yr ALl yn trafod darpariaeth ffrwd ddeuol gyda'r gymuned iaith Gymraeg leol gan ddefnyddio enghreifftiau o ddarpariaeth iaith ddeuol lwyddiannus mewn awdurdodau eraill. (Canlyniad 1).		**X**	
6. Ymgynghori gydag ysgolion i edrych ar newid categoreiddio iaith rhai ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog a chynyddu nifer y plant 7 oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.		**X**	

(Canlyniad 1).			
7. Yn dilyn cyflwyno ei Gynllun Amlinellol strategol ar gyfer Ysgolion yr 21ain ganrif Band B (sydd wedi'i gysylltu'n agos â'r WESP) i Lywodraeth Cymru, bydd yr ALl yn parhau i ganolbwyntio ar ddatrysiad parhaol i ddiffyg capasiti yn Ysgol Glanrafon (Canlyniad 1).	X		
8. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w Gynllun Amlinellol Strategol gan ei fod yn gysylltiedig â WESP y sir i fynd i'r afael â'r materion llety gwael yn Ysgol Croes Atti. (Canlyniad 1).	X		
9. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gefnogi safle Glannau Dyfrdwy (safle o bell Ysgol Croes Atti) nes bydd y ddarpariaeth Gymraeg newydd hon yn Shotton yn gynaliadwy dan fformiwla cyllido cost arferol (Canlyniad 1).	X		
10. Parhau i hyrwyddo Siarter Iaith er mwyn gwella a datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg er mwyn i'r bobl ifanc presennol gynnal eu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol a dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant yn y dyfodol (Canlyniad 1).	X		
11. Parhau i weithredu cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu 30 awr o ofal plant am ddim/addysg gynnar gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg (Canlyniad 1). Mae 77 wedi cael mynediad at y ddarpariaeth hyd yma. Edrych ar barhau i ariannu'r ddarpariaeth gan Mudiad Meithrin dros gylch y WESP 2017-2020 (Canlyniad 2).	X		
12. Llunio rhaglen egnïol i annog rhieni plant cyn-ysgol i gael mynediad i ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg gyda hyder drwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd (Canlyniad 2). Ar-lein o bosibl.		X	
13. Ymrwymo i barhau i ariannu'r ddarpariaeth gan Mudiad Meithrin dros gylch y WESP 2017-2020 (Canlyniad 2).	X		
14. Bydd parhau i weithredu'r cynllun 'Cymraeg i Blant' yn hyrwyddo manteision a buddion bod yn ddwyieithog a darpariaeth cyfrwng Cymraeg i rieni. (Canlyniad 2).	X		
15. Parhau i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi trawsnewid o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i Ysgol Maes Garmon ym Mlwyddyn 5 Haf 2018, e.e. disgyblion mwy galluog a thalentog mewn caffael iaith (Canlyniad 2).	X		
16. Gwella hyrwyddo rhaglen 'Trochi' yn ysgolion cyfrwng Saesneg CA2 i gyflawni cynnydd cyson o ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 (Canlyniad 2).		X	
17. Parhau i ymchwilio i anghenion economaidd yr ardal leol gan gynnwys manteision a chyfleoedd ar gyfer siaradwyr dwyieithog. Bydd hyn yn llywio cynllunio, cyllido a darparu cyrsiau yn y dyfodol drwy gyfrwng y Gymraeg (Canlyniad 3, 4).	X		
18. Ymchwilio ymhellach i ddatblygu'r Gymraeg ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol drwy sefydliadau fel yr Urdd (Canlyniad 5).	X		
19. Sefydlu gweledigaeth hirdymor strategol ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol yn Sir y Fflint ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg a galluogi'r awdurdod i fodloni gofynion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg sydd yn dod i'r amlwg (Canlyniad 6).		X	
20. Comisiynu arolwg arall o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY i lywio cynllunio gwasanaethau yn 2017-18 ac adrodd i fforwm WESP. (Canlyniad 6).		X	
21. Darparu darpariaeth allgymorth drwy Bortffolio Unedau Atgyfeirio Disgyblion i gefnogi dysgwyr i gadw eu lleoliadau prif ffrwd. Bydd yr ALl yn parhau i sicrhau ei fod yn darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg fel sy'n briodol (Canlyniad 6).	X		
22. Parhau i ddatblygu sgiliau cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol a staff mewn ysgolion, i gynyddu arbenigedd ac ymwybyddiaeth o sut i ddiwallu anghenion eu disgyblion (Canlyniad 6).	X		
23. Datblygu perthnasoedd ymhellach gyda theuluoedd, asiantaethau partner a darparwyr i ddatblygu darpariaeth Gymraeg sy'n ymatebol i anghenion a galwadau a fynegwyd (Canlyniad 6).	X		
24. Yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid y sir i ddatblygu ymhellach amrywiaeth o weithgareddau tu allan i'r ysgol i bobl ifanc, gan gynnwys rhai ag	X		

Anghenion Dysgu Ychwanegol, i gael mynediad drwy gyfrwng y Gymraeg (Canlyniad 5, 6).			

Is-grŵp Safonau **Dyddiad adolygu: Medi 2018**	**Gweithredu** **Parhaus**	**Gweithredu** **Newydd**	**Cynnydd (RAG)**
1. Datblygu strategaethau ymhellach i godi safonau mewn Cymraeg ail iaith ym mhob cyfnod dros y tair blynedd nesaf i gynnwys cynllunio strategol i godi ei broffil drwy gynllunio'r cwricwlwm, cynllunio adnoddau a dyrannu, darpariaeth hyfforddiant a rhannu arfer da mewn addysgu a dysgu (Canlyniad 5).	X		
2. Yr ALl i weithio'n agos gyda phenaethiaid a llywodraethwyr holl ysgolion Sir y Fflint i ganolbwyntio sylw ar strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gyda sgiliau uwch. Caiff hyn ei gynnwys yn eu cynllunio ar gyfer darpariaeth ysgolion. (Canlyniad 5).	X		
3. Bydd Cynlluniau Gwella Ysgolion, Cynlluniau Gwella Adrannol a Chynlluniau Gwaith yn cynnwys strategaethau llythrennedd iaith Gymraeg integredig er mwyn codi safonau (Canlyniad 5).		X	
4. Cynlluniau Gwella Ysgolion Cynradd i fynd i'r afael â'r angen i godi safonau perfformiad yng Nghanlyniad 5 yn y Cyfnod Sylfaen, Cymraeg iaith gyntaf (Canlyniad 5).	X		
5. Ymgorffori'r Siarter Iaith ymhellach yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint - pawb wedi cyflawni'r Safon Aur erbyn mis Gorffennaf 2020 (Canlyniad 3, 4).	X		
6. Tîm Cynghorol Cymraeg yr awdurdod i barhau i sicrhau safonau drwy asesiadau athro cadarn a gaiff eu harwain gan reolwr y tîm. (Canlyniad 2, 5).	X		
7. Y partneriaethau 14-16 ac 14-19 effeithiol i nodi a pharhau i amlygu'r cyfleoedd yn yr economi lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig ar gyfer gwaith (Canlyniad 3, 4).	X		
8. Darparu Cymraeg Campus (Siarter Iaith) ymhellach yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i godi safonau mewn Cymraeg anffurfiol (Canlyniad 5).	X		
9. Gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a phartneriaid allweddol yn y Fforwm i gynyddu nifer y disgyblion sy'n gadael CA4 gyda gradd TGAU dda mewn Cymraeg (ail iaith) (Canlyniad 5).		X	
10. Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster Cymraeg ail iaith llawn ar Gyfnod Allweddol 4 yn unol â'r newidiadau arfaethedig i gymhwyster CBAC yn 2017 a thu hwnt a pharhau i gynnal yn ogystal â gwella perfformiad y dysgwyr yn y pwnc (Canlyniad 5).		X	
11. Yr ALl mewn partneriaeth gyda'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Cambria, yr Urdd a Menter Iaith i hyrwyddo a chodi proffil cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa o fod â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch er mwyn cynyddu niferoedd sy'n astudio'r pwnc (Canlyniad 5).		X	
12. Cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau gweithlu ymhellach, i godi safonau disgyblion, drwy werthuso anghenion Datblygiad Proffesiynol Pellach yn dilyn canlyniadau'r Archwiliad Sgiliau Iaith Gweithlu Ebrill 2018 (Canlyniad 7).		X	
13. Ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn y Fforwm i gynyddu nifer y disgyblion CA4 sy'n gadael CA4 yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda gradd TGAU dda mewn Cymraeg (ail iaith) (Canlyniad 5).		X	
14. Bydd yr ALl yn ceisio annog deialog rhanbarthol rhwng ALl, Llywodraeth Cymru a GwE er mwyn hyrwyddo strategaeth ranbarthol a chefnogaeth i gynorthwyo trawsnewid ysgolion i ymateb i heriau'r cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith newydd yn 2017 yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol y tu hwnt i hyn (Canlyniad 5).	X		
15. Gwneud defnydd mwy effeithiol o lwyfannau digidol i gefnogi dysgu a chodi safonau a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, e.e. Hwb, Apiau Cymraeg ac ati (Canlyniad 2, 5).	X		

16. Adolygu Defnydd Cymdeithasol Sir y Fflint o'r Fframwaith Cymraeg a datblygu cynllun gweithredu clir i fynd i'r afael â diffygion a chodi safonau (Canlyniad 5).		**X**	

Is-grŵp Gweithlu **Dyddiad adolygu: Medi 2018**	**Gweithredu** **Parhaus**	**Gweithredu** **Newydd**	**Cynnydd (RAG)**
1. Mynd ati i ymgysylltu â'r strategaeth ranbarthol newydd ei datblygu, i ddatblygu gweithlu i gefnogi Datblygu'r Gymraeg (Canlyniad 5).		**X**	
2. Tîm Cynghori'r Gymraeg yr Awdurdod i barhau i ddarparu rhaglen wedi'i chydlynu o ansawdd uchel o ddatblygiad proffesiynol i ymateb i anghenion yr ysgol, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Canlyniad 7).	**X**		
3. Hyfforddiant, darpariaeth ac adnoddau i ymarferwyr, fel a ddarparwyd gan Dîm Cynghorol Cymraeg yr ALl i barhau i gael eu cynllunio a'u datblygu gan ystyried yr angen iaith a nodwyd - Archwiliad Iaith Gweithlu Ebrill 2018 (Canlyniad 7).	**X**		
4. Trwy Fforwm WESP, bydd yr ALl yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, y rhanbarth a LlC er mwyn ymateb i'r her o gynyddu niferoedd lleoliadau Sabothol er mwyn uwchsgilio'r gweithlu a diwallu anghenion datblygu'r iaith mewn sefydliadau (Canlyniad 7).		**X**	
5. Bydd yr ALl yn mynd ati i ymgysylltu â'r strategaeth ranbarthol, i ddatblygu gweithlu i gefnogi Datblygu'r Gymraeg, yn enwedig yn CA3 (Canlyniad 2).	**X**		
6. Fforwm WESP i nodi ac amlygu heriau recriwtio drwy ei fudd-ddeiliaid a chydweithredu â Cyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru i geisio mynd i'r afael â mater diffyg ymarferwyr cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd penodol o ddarpariaeth (Canlyniad 7).		**X**	
7. Fforwm WESP i amlygu a hyrwyddo'r angen am gymorthyddion addysgu a staff cymorth cyfrwng Cymraeg a nodi'r llwybrau dysgu a chyfleoedd gyrfa sydd ar gael i unigolion mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith (Canlyniad 7).		**X**	
8. Targedu staff CA3 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddarparu strwythur i wella eu Cymraeg bob dydd a sgiliau iaith sy'n benodol i bwnc. (Canlyniad 2, 7).		**X**	
9. Datblygu'r defnydd o lwyfannau digidol ymhellach i gefnogi rhaglenni hyfforddiant, e.e. Hwb, Apiau Cymraeg ac ati (Canlyniad 7).	**X**		